



Papur polisi

Strategaeth wrthderfysgaeth

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Ffactorau allweddol sy'n berthnasol i strategaeth y comisiwn ar gyfer diogelu'r sector rhag cael ei gamddefnyddio gan derfysgwyr	4
3. Graddfa a natur y bygythiad	5
4. Rôl ac ymagwedd y comisiwn	7
5. Amcan strategol a'r ymagwedd 4 llinyn	9
6. Y 4 llinyn	10

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rôl y Comisiwn Elusennau a'i ymagwedd at ddelio â phryderon ynghylch camddefnyddio elusennau at ddibenion terfysgol a'i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r risg o derfysgwyr yn camddefnyddio'r sector elusennol.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ymagwedd 4 llinyn:

- 1. Ymwybyddiaeth** - codi ymwybyddiaeth yn y sector er mwyn adeiladu ar fesurau diogelu presennol elusennau.
- 2. Goruchwyllo ac arolygu** - dull rhagweithiol o fonitro'r sector, dadansoddi tueddiadau a llunio proffil o'r risgiau a manau gwan.
- 3. Cydweithredu** - cryfhau partneriaethau â rheoleiddwyr y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- 4. Ymyrryd** - delio'n effeithiol ac yn gadarn pan fydd camddefnyddio, neu'r risg o gamddefnyddio, yn dod i'r amlwg.

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r comisiwn wedi'i sefydlu gan y gyfraith fel rheoleiddiwr a chofrestrydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw darparu'r dull gorau posibl o reoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn gwella effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd ynddynt.

Amcanion y comisiwn, fel y nodwyd yn Neddf Elusennau 2011, yw:

- gwella ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau
- hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fudd cyhoeddus
- hyrwyddo cydymffurfiaeth ymddiriedolwyr â'r gyfraith wrth iddynt reoli a llywio elusennau
- hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol
- gwella atebolrwydd elusennau i roddwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd

1.2. Mae'r comisiwn yn adran anweinidogol o'r llywodraeth sy'n gweithredu'n annibynnol. Mae Deddf Elusennau 2011 yn gwahardd yn benodol arfer unrhyw swyddogaeth y comisiwn sy'n amodol ar gyfarwyddyd neu reolaeth unrhyw weinidog neu unrhyw adran arall o'r llywodraeth. Mae'n rheoleiddio mwy na 164,000 o elusennau cofrestredig. Mae tua 100,000 o elusennau anghofrestredig eraill sy'n gweithredu yn ôl gwahanol raddfeydd o reoleiddio a/neu gymorth gan y comisiwn. Wrth ddatblygu ei amcan cydymffurfio, mae swyddogaethau statudol gan y comisiwn sy'n ceisio adnabod ac ymchwilio i achosion honedig o gamddefnyddio neu gamreoli yn y gwaith o weinyddu elusennau ac annog a hwyluso dulliau gwell o weinyddu elusennau. O ganlyniad, yn ogystal ag ymyrryd ym musnes yr elusen pan fydd risg difrifol y gallai asedau, gwasanaethau, buddiolwyr neu enw da gael eu camddefnyddio neu eu niweidio, bydd y comisiwn hefyd yn cydweithio ag elusennau mewn achosion o'r fath i sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn y lle cyntaf. Mae gwybodaeth bellach am ei rôl, ei gyfrifoldebau a sut mae'r comisiwn yn cyflawni ei waith ar gael ar GOV.UK.

1.3. Mae nod y comisiwn yn cynnwys sicrhau'r cyhoedd bod arian a roddwyd at ddibenion elusennol yn cael ei ddefnyddio gan elusennau yn unol â'r gyfraith a bod sefydliadau sydd â statws elusen yn gyfreithlon ac yn gweithredu'n gyfan gwbl er mwyn cyflawni'r dibenion hynny. Mae'r comisiwn yn defnyddio ymagwedd seiliedig ar risg at reoleiddio¹. Ei fan cychwyn felly yw gwneud elusennau yn atebol i'r cyhoedd am yr arian y maent yn ei dderbyn a'r breintiau a gânt yn sgîl eu statws elusennol, a'r ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am eu gweinyddu a'u rheoli. Fodd bynnag, mae gan y comisiwn bwerau rheoleiddio, gan gynnwys y pŵer i gychwyn ymchwiliadau statudol a gorfodi elusennau i ddarparu gwybodaeth, ynghyd â phwerau ymyrryd dros dro a diogelu i warchod eiddo elusennol a phwerau mwy parhaol ac adferol i ddatrys pryderon yn y tymor hwy. Bydd y comisiwn yn defnyddio ei bwerau lle y bo angen a lle y bo'n gymesur i wneud hynny ond bydd y canlyniadau rheoleiddio gorau a'r defnydd gorau o'i adnoddau yn cael eu cyflawni'n aml trwy roi cyngor a chanllawiau rheoleiddio unioni i ymddiriedolwyr er mwyn rhoi'r elusen yn ôl ar sylfaen ddiogel. Mae ymagwedd y comisiwn at reoli risg yn sicrhau bod ei ymyrraeth yn briodol, a'i fod yn adlewyrchu'n gywir ddifrifoldeb y broblem ac effaith bosibl methu â'i reoleiddio. Mae'r hyn sy'n gymesur yn dibynnu ar natur a lefel y risg a'r effaith bosibl.

1 Gweler [Fframwaith Risg](#) y comisiwn.

1.4. Fel rheoleiddiwr modern, bydd y comisiwn yn rhoi pwyslais ar atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf trwy ddarparu ystod eang o ganllawiau ar-lein i helpu ymddiriedolwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Mae'n ceisio annog a helpu elusennau i wella eu perfformiad trwy eu cael i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a gyda grwpiau mantell, a'u helpu i hyrwyddo arferion da a safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd, a rhannu'r wybodaeth hon yn eang.

1.5. Mae Cymru a Lloegr wedi elwa o gael sector elusennol cryf a bywiog ers cannoedd o flynyddoedd. Mae elusennau'n bodoli i greu cymdeithas well ac maent yn gweithredu am amryw helaeth o ddibenion mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae gan y 164,000 o elusennau sydd wedi cofrestru gyda'r comisiwn incwm blynyddol o fwy na £68 biliwn ac asedau a buddsoddiadau hirdymor o oddeutu £200 biliwn, dros 945,000 o aelodau staff cyflogedig a thua 940,000 o swyddi ymddiriedolwyr. Mae'r sector elusennol yn amrywiol ac yn ymestyn o sefydliadau lleol sy'n gweithio yn y gymuned i sefydliadau celfyddydol cenedlaethol ac elusennau sy'n helpu gydag effeithiau trychinebau rhyngwladol. Mae pob un o'r sefydliadau hyn wedi'u huno gan ymrwymiad i weithredu'n wirfoddol ac awydd i wneud cymunedau yn lleoedd gwell. Mae elusennau'n gyfrwng ar gyfer dadlau adeiladol a gweithredu cymdeithasol er mwyn adeiladu cymdeithas sifil gryf. Mae'n cynnig diogelwch pwysig yn erbyn eithafiaeth. Mae elusennau'n gwneud cyfraniad hollbwysig i gymdeithas ac i'r economi genedlaethol, yn ogystal â chael effaith ehangach ledled y byd a all fynd i'r afael â nifer o achosion sylfaenol dadrithiad sy'n gallu golygu bod pobl yn troi at eithafiaeth neu derfysgaeth.

1.6. Mae'r sector yn cael mwy na dim ond effaith ddomestig. Bydd elusennau rhyngwladol yn aml yn gweithio mewn ardaloedd risg uchel, lle mae'r angen mwyaf o bosib. Gall elusennau fynd i'r lleoedd a'r cymunedau anodd eu cyrraedd hynny na all llywodraethau fynd iddynt yn aml. Gallant weithio i rymuso pobl leol i helpu i wella atebolrwydd eu llywodraethau eu hunain; maent yn darparu gwasanaethau hanfodol mewn amgylchiadau eithafol a chaled; ac mae eu gwybodaeth am faterion lleol yn aml yn well na'r wybodaeth sydd gan gyrrff cyhoeddus neu breifat oherwydd eu bod yn cydweithio'n agos â phobl a materion lleol.

1.7. Mae'r comisiwn yn cydnabod pwysigrwydd sector elusennol iach, atebol ac annibynnol mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio'r swm sylweddol o arian gan elusennau a sefydlwyd yng Nghymru a Lloegr sy'n cael ei roi i wledydd eraill i hyrwyddo gwaith dyngarol a gwaith elusennol arall. Mae rôl bwysig gan Raglen Ryngwladol y comisiwn² o ran parhau i helpu i greu hyn drwy gefnogi datblygiad dulliau rheoleiddio rhyngwladol a lleol sy'n galluogi cymdeithas sifil i ffynnu. Gwna hyn trwy gydweithio â llywodraethau dramor a'r sector elusennol i gryfhau a chefnogi datblygiad systemau rheoleiddio atebol ac effeithiol yn rhyngwladol ac yn lleol mewn gwledydd eraill.

1.8. Y ddogfen hon yw strategaeth y comisiwn ar gyfer darparu ei ymateb rheoleiddio i'r risg o derfysgwyr yn camddefnyddio'r sector elusennol. Mae'n cyflwyno ymagwedd gyffredinol y comisiwn a'i nod ar gyfer y dyfodol. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar ei waith a'i arbenigedd presennol yn y maes hwn ac yn cymhwyso egwyddorion rheoleiddio cyffredinol y comisiwn yn ogystal â'i fframwaith risg.

2 Mae'r Rhaglen Ryngwladol wedi'i chyllido'n bennaf gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

1.9. Mae parch mawr tuag at waith y comisiwn yn y maes hwn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Datblygwyd y strategaeth hon yn unol â datblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach, gan ystyried argymhellion y Tasglu Gweithredu Ariannol a strategaeth Llywodraeth y DU ar Atal Terfysgaeth Rhyngwladol, o'r enw CONTEST³. Ers i'r comisiwn gyhoeddi ei strategaeth gyntaf yn 2008, diweddarwyd strategaeth wrthderfysgaeth y llywodraeth ac mae'r ffrwd gwaith Atal, yn arbennig, wedi cael ei adolygu'n ffurfiol. Mae'r ffrwd gwaith Atal, sy'n pwysleisio'r rôl o atal, yn ceisio rhwystro pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Roedd yr adolygiad Atal wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar waith gydag ystod eang o sectorau a sefydliadau lle mae risgiau o radicleiddio y mae angen rhoi sylw iddynt. Roedd yr adolygiad hefyd wedi cydnabod bod sectorau amrywiol yn helpu i rwystro pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth, gan dynnu sylw at addysg, ffydd, iechyd, cyfiawnder troseddol a sectorau elusennol fel meysydd gwaith â blaenoriaeth yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad yn dangos sut mae elusennau'n chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r strategaeth Atal. Mae strategaeth wrthderfysgaeth bresennol y comisiwn trwy ei llinyn 'Ymwybyddiaeth' yn cwmpasu ac yn ategu'r nodau hyn.

1.10. Mae ymagwedd 4 llinyn i'r strategaeth, a nodir yn fwy manwl yn adran 6, gan gynnwys:

- ymwybyddiaeth
- goruchwylio ac arolygu
- cydweithredu
- ymyrryd

2. Ffactorau allweddol sy'n berthnasol i strategaeth y comisiwn ar gyfer diogelu'r sector rhag cael ei gamddefnyddio gan derfysgwyr

2.1. Mae ymagwedd bresennol y comisiwn at reoleiddio yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer ei strategaeth. Bydd y comisiwn yn parhau i:

- fabwysiadu ymagwedd gytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth a risg, wedi'i thargedu ac yn gymesur
- gweithio mewn partneriaeth a chydweithio â'r llywodraeth a rheoleiddwyr ac asiantaethau perthnasol eraill a'r sector elusennol ei hun
- cynnal ei annibyniaeth strategol a gweithredol yn unol â'i gylch gwaith strategol

2.2. Y ffactorau allweddol sy'n berthnasol i'w strategaeth ar gyfer diogelu'r sector rhag cael ei gamddefnyddio gan derfysgwyr yw:

- pan fydd honiadau o weithgarwch gan derfysgwyr neu gysylltiadau ag elusennau yn codi, bydd yn delio â nhw fel blaenoriaeth; bydd y comisiwn yn delio â phryderon yn rhagweithiol, yn gadarn, yn effeithiol ac yn gyflym pan fydd tystiolaeth neu amheuan difrifol ganddo o derfysgwyr yn camddefnyddio elusennau
- bydd cynnwys terfysgwyr mewn elusennau a therfysgwyr yn camddefnyddio elusennau yn cael sylw o dan ddeddfwriaeth wrthderfysgaeth gyfredol y DU
- mae'r ffordd y mae'r comisiwn yn ymdrin â'r risg o derfysgwyr yn camddefnyddio elusennau yn cyfateb â'i hymagwedd bresennol tuag at reoleiddio

3 Y Strategaeth Wrthderfysgaeth - Swyddfa Gartref.

- mae rheoleiddio effeithiol yn golygu rhoi pwyslais cryf ar atal a helpu elusennau i weithredu eu hunain er mwyn atal problemau a chamddefnyddio rhag digwydd yn y lle cyntaf
- mae'r comisiwn yn credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol i'r sector gadw'r risg o gael eu camddefnyddio gan derfysgwyr i'r lleiaf posibl yw trwy gael trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth gan bartneriaid cryf ac effeithiol; bydd elusennau sy'n gweithredu polisiau a gweithdrefnau rheoli risg cyffredinol da wedi'u diogelu'n well yn erbyn amrywiaeth o gamddefnydd posibl
- cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr elusen yw diogelu eu helusen rhag cael eu camddefnyddio gan derfysgwyr; bydd y comisiwn yn eu helpu i wneud hyn gan sicrhau bod elusennau'n cyflawni eu gwaith dyngarol gwerthfawr, cyfreithlon a hanfodol a gwaith arall o fewn y gyfraith
- mae'r comisiwn mewn sefyllfa unigryw i ddelio â chamddefnydd pan fydd yn digwydd, i gydweithredu â rheoleiddwyr eraill, asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill y llywodraeth a helpu ymddiriedolwyr i ddiogelu eu helusennau

2.3. Mae effeithlonrwydd y comisiwn a'i lwyddiant fel rheoleiddiwr sifil elusennau i'w briodoli'n rhannol i'r parch a'r ffydd sydd gan y cyhoedd a'r elusennau eu hunain ynddo. Nid oes modd gorbriso'r ffydd hon; mae'n un o'r manteision rheoleiddio mwyaf effeithiol y mae'n dibynnu arno.

2.4. Mae'r comisiwn yn ymrwymedig i gydymffurfio â'i ddyletswydd i ystyried yr egwyddorion o arferion rheoleiddio gorau gan gynnwys sicrhau bod ei weithgareddau yn gymesur, yn atebol, yn gyson, yn dryloyw ac wedi'u targedu dim ond ar yr achosion lle mae angen gweithredu. Ystyr cymesur yw nid yn unig cymryd camau sy'n gymesur â'r risg o niwed ond hefyd ystyried pa ddewisiadau eraill sydd i gael yr un canlyniad gyda llai o ymyrraeth.

2.5. Fel corff cyhoeddus, mae'r comisiwn yn ymwybodol o'i ddyletswydd i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 2000 a'i ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus eraill gan gynnwys ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3. Graddfa a natur y bygythiad

3.1. Mae terfysgaeth yn fygythiad difrifol a pharhaus i gymdeithas yn y DU, i fuddiannau'r DU dramor ac i'r gymuned ryngwladol ehangach. Mae'r bygythiad hwn yn berthnasol i'r sector elusennol lawn gymaint ag i unrhyw sector arall.

3.2. Ni wyddys union raddfa'r cronfeydd elusennol sy'n cael eu gwyro at ddibenion terfysgaeth, cysylltiadau elusennau â gweithgareddau terfysgol a chamddefnydd arall ond, fel y cydnabu Adolygiad y Swyddfa Gartref⁴, "mae'r achosion gwirioneddol o gamddefnydd yn brin iawn". Mae profiad y comisiwn ei hun yn awgrymu mai bach iawn yw nifer yr achosion o'i gymharu â maint y sector lle mae tystiolaeth i brofi bod elusennau wedi ymwneud â chefnogi gweithgarwch terfysgol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn fwriadol neu'n ddiarwybod. Fodd bynnag, mae camddefnydd o'r fath yn hollol annerbyniol, a gallai effaith hyd yn oed un achos a brofwyd sy'n cynnwys elusen fod yn arwyddocaol o ran ffydd a hyder y cyhoedd yn yr elusen honno ac yn y sector yn gyffredinol.

4 Review of safeguards to protect the charitable sector (England and Wales) from terrorist abuse. A consultation document. Swyddfa Gartref, Trysorlys EM, Mai 2007.

3.3. Mae'r comisiwn bob amser wedi bod yn wyladwrus ynglŷn â'r risg o gysylltiadau posibl rhwng elusennau a sefydliadau terfysgol a phobl sy'n gysylltiedig â nhw. Mae parch mawr gan gymdeithas at elusennau am sawl rheswm sydd hefyd yn gallu eu gwneud yn agored i gamddefnydd diegwyddor. Mae elusennau yn:

- mwynhau lefelau uchel o ffydd gyhoeddus oherwydd eu natur wirfoddol ac anhunanol
- cyrraedd pob rhan o gymdeithas ac yn amrywiol eu natur; oherwydd ehangder ei waith daw nifer fawr o bobl i gysylltiad agos ag elusennau, gan gynnwys y rhai a all eu camddefnyddio, trwy eu gwasanaethau, trwy ddefnyddio eu heiddo a thrwy eu hymddiriedolwyr a'u gwirfoddolwyr
- sicrhau presenoldeb byd-eang, mewn ardaloedd o wrthdaro yn aml, neu mewn ardaloedd gydag isadeiledd gwael, a byddant yn aml yn symud arian, nwyddau a phobl i'r ardaloedd hyn
- gweithrediadau ariannol byd-eang cymhleth gan ddelio â rhoddwyr ac arian cyfred lluosog; gallant weithredu gyda llawer o arian parod, naill ai drwy gasglu neu ddsbarthu cronfeydd, a gallant ddelio â systemau talu arian parod eraill os nad oes unrhyw isadeiledd bancio ffurfiol
- gallu trosglwyddo arian a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys cyrff anllywodraethol⁵ sy'n gweithio dramor yn hytrach na darparu eu gwasanaethau'n uniongyrchol
- gweithredu fel cyfrwng ar gyfer newid cymdeithasol yn aml sy'n denu pobl sy'n ymrwymedig i wneud newidiadau
- cyfryngau pwerus yn aml ar gyfer dod â phobl at ei gilydd at ddiben cyffredin a gweithredu ar y cyd, a gallant, trwy amryfusedd, ddarparu rhwydwaith a llwyfan cymdeithasol parod cyfreithlon ar gyfer terfysgwyr neu ideoleg terfysgaeth

3.4. Mae elusennau hefyd yn gweithredu i wahanol lefelau rheoleiddio a lefelau rheoleiddio gwannach mewn rhai achosion mewn gwahanol rannau o'r byd.

3.5. Am bob un o'r rhesymau hyn, gall terfysgwyr a'r rhai sy'n eu cefnogi nhw a'u hachosion geisio gamfanteisio ar elusennau a'u llygru at eu dibenion eu hunain.

3.6. Mae'r comisiwn hefyd yn cydnabod bod pob rhan o economi'r DU, yn arbennig y sector ariannol, yn tynhau eu mesurau diogelu ac yn cryfhau eu hamddiffyniad yn erbyn camddefnydd gan derfysgwyr. Wrth i'r cyfleoedd i derfysgwyr gamfanteisio yn y sectorau hyn leihau, mae risg cynyddol y byddant yn hoelio sylw ar sectorau eraill, gan gynnwys y sector elusennol. Mae hyn yn cynyddu'r bygythiad i'r sector. Mae angen clir i'r comisiwn gefnogi elusennau yn y gwaith parhaus a wnânt i fod yn fwy gwyladwrus a gwella eu harferion asesu a rheoli risg, yn arbennig yn achos elusennau sy'n gweithio'n rhyngwladol mewn ardaloedd risg uchel y byd.

3.7. Cydnabyddir bod angen i'r llywodraeth a'r comisiwn sicrhau eu bod yn deall natur a graddfa'r bygythiad i elusennau gan derfysgwyr a sut y gall y bygythiad hwnnw ddatblygu. Mae gan y comisiwn brofiad sylweddol ac amrywiol o'i waith rheoleiddio yn y maes hwn a bydd yn parhau i'w ddadansoddi a'i ddefnyddio wrth weithredu'r strategaeth hon a chyflawni ei waith. Bydd y comisiwn yn cysylltu hyn â gwybodaeth arbenigol o fewn y sector a'r gymuned wrthderfysgaeth. Bydd yn parhau i fireinio ei strategaeth a'n nodau wrth i natur y bygythiad a'r risg i elusennau newid.

5 Sefydliadau anllywodraethol, weithiau y cyfeirir atynt fel sefydliadau di-elw.

4. Rôl ac ymagwedd y comisiwn

4.1. Mae gan y comisiwn rôl allweddol i'w chwarae fel rheoleiddiwr annibynnol y sector elusennol. Mae mewn lle unigryw i ddiogelu elusennau a delio ag achosion o gamddefnydd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth neu eithafiaeth. Nid yw'n awdurdod erlyn ac nid yw'n cynnal ymchwiliadau troseddol. Os oes pryderon ynghylch camddefnydd posibl gan derfysgwyr sy'n gysylltiedig ag elusen, bydd bob amser yn cydgysylltu ac yn cydweithio'n agos â'r heddlu a'r Gwasanaeth Diogelwch oherwydd mae gweithgareddau terfysgol yn dramgwydd troseddol. Ei rôl a'i ymagwedd at roi sylw i'r math hwn o gamddefnydd yw ategu'r sancsiynau troseddol ac ariannol a gweithdrefnau rhewi asedau terfysgwyr trwy ddulliau goruchwylio rheoleidiol gan y comisiwn a fframwaith y gyfraith elusennau. Gall gymryd camau rheoleiddio annibynnol i atal, amharu ac ymchwilio i gamddefnydd. Mae'n cydweithredu â rheoleiddwyr a chyrff sector eraill ac yn helpu'r ymddiriedolwyr eu hunain i gryfhau dulliau diogelu er mwyn cadw'r perygl o gamddefnydd o'r fath i'r lleiaf posibl yn eu helusennau.

Mae'r sefyllfa hon i'w phriodoli'n bennaf i:

- rôl reoleiddio annibynnol sydd gan y comisiwn a'i gwaith yn goruchwylio'r sector elusennol
- gwybodaeth eang ac unigryw o'r sector, ei amrywiaeth a'r ffordd y mae'n gweithredu
- pwerau amddiffynnol ac adferol y gellir eu defnyddio i amharu ar gamddefnydd a diogelu asedau a buddiolwyr elusennau gan sicrhau bod gweithgarwch cyfreithlon yn parhau yr un pryd
- hygyrdd yr ymdrechwyd yn galed i'w gael a'r ffydd a'r hyder sydd gan y sector a'r cyhoedd yn y comisiwn

4.2. Mae'r ffordd y mae'r comisiwn yn delio â'r bygythiad i elusennau gan derfysgwyr yn cyd-fynd â'i hymagwedd bresennol at reoleiddio. Mae'n gweithredu'n gadarn, yn gyflym ac yn benderfynol mewn achos o droeddol fwiadol, troseddoldeb a chamddefnyddio difrifol, gan gynnwys camddefnyddio gan derfysgwyr, neu os oes risg y gall terfysgwyr gamddefnyddio. Mae'r comisiwn yn disgwyl i bob elusen reoli risg yn effeithiol a chryfhau mesurau diogelu yn erbyn pob math o gamddefnydd, gan gynnwys camddefnyddio gan derfysgwyr.

4.3. Mae rheoleiddio effeithiol yn rhoi pwyslais cryf ar atal, gan annog y sector i adnabod a lledaenu arferion gorau ei hun, a sicrhau bod elusennau yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol ac yn cydymffurfio â nhw, a'u bod yn dilyn safonau arferion gorau. Mae hyn yn atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf ac yn lleihau'r angen i'r comisiwn ymyrryd yn ddiweddarach. Mae effeithiolrwydd ei hymagwedd yn dibynnu ar gael y cydbwysedd cywir rhwng atal a rhwystro ac, os oes angen, ymyrryd ar sail tystiolaeth a chymesuredd. Mae'r comisiwn yn ceisio rheoleiddio mewn ffordd sy'n ymdrin yn effeithiol â chamddefnydd a risg gan leihau'r baich rheoleiddio a, chyn belled â phosibl, sicrhau bod arian yn parhau i lifo ar gyfer gweithgarwch elusennol cyfreithlon.

4.4. Mae'n bwysig bod y comisiwn a gweddill y llywodraeth yn gweithio'n galed i sicrhau nad un o ganlyniadau cymryd mwy o gamau i atal y risg o gamddefnydd yw atal elusennau cyfreithlon, sy'n gweithredu o fewn y gyfraith, rhag gwneud gwaith gwerthfawr. Gallai hyn niweidio cymorth rhyngwladol mewn ardaloedd o risg uchel a byddai'n cael effaith negyddol ar fuddiolwyr. Mae'r anghenion dyngarol mwyaf yn bodoli'n aml yn yr un ardaloedd lle mae gwrthdaro neu os tybir bod grwpiau o derfysgwyr, neu'r rhai sy'n gysylltiedig â nhw, yn gweithredu. Byddai'n hollol annymunol pe byddai canlyniad anfwriadol strategaeth wrthderfysgaeth yn ei gwneud hi'n amhosib i elusennau cymorth dramor cyfreithlon ddarparu cymorth, neu ei gwneud hi'n amhosib i unrhyw elusen ddarparu cymorth mewn rhannau arbennig o'r byd. Mae hon yn her anodd a chymhleth i elusennau, y comisiwn a gweddill y llywodraeth.

4.5. Mae'r comisiwn yn cydnabod bod nifer o elusennau yn wynebu cyfyng-gyngor arbennig o anodd pan fyddant yn gweithredu mewn rhai rhannau o'r byd. Gall cyd-destunau gwleidyddol a chyfreithiol gymhlethu materion a gall sefydliadau yr ystyrir eu bod yn sefydliadau terfysgaeth, neu sy'n gysylltiedig â therfysgwyr, gael dylanwad neu reolaeth fawr mewn rhai ardaloedd; er enghraifft, yn y cyd-destunau cymhleth ac anodd sydd i'w cael yn Nwyrain Affrica a Thiriogaethau Meddianedig Palesteina. Mae hyn wedi'i gymhlethu ymhellach gan y farn wahanol a arddelir gan aelodau o'r gymuned ryngwladol at rai sefydliadau, sydd yn aml yn gosod amodau amrywiol ar y cymorth y maent yn ei roi i'r ardaloedd hyn. Mae angen cymorth ar elusennau i'w helpu i ddatrys yr anawsterau ymarferol a wynebant wrth gyflawni eu gwaith yn yr ardaloedd hyn, ac ar yr un pryd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a heb fod yn cefnogi terfysgwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r comisiwn wedi bod yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r sector i egluro sut y gall cymorth dyngarol barhau mewn ardaloedd o'r fath a gweithredu o fewn y gyfraith yr un pryd, a bydd yn parhau i wneud hynny.

4.6. Mae'n rhaid i'r comisiwn hefyd fod yn effro i'r risg anfwriadol y gallai baich rheoleiddio uwch annog rhoi arian i sefydliadau anghofrestredig neu i eraill dramor ac felly gallai fod y tu hwnt i'w waith reoleiddio.

4.7. Mae elusennau, eu hymddiriedolwyr ac eraill sy'n ymwneud â'u gwaith yn gweithio yn ôl darpariaethau deddfwriaeth wrthderfysgaeth y DU a'r rhwymedigaethau sy'n deillio ohonynt. Mae'r comisiwn yn rheoleiddiwr sifil ac nid yw'n awdurdod ymchwilio neu erlyn yn achos tramgwyddau troseddol. Rôl a chyfrifoldeb yr heddlu a'r asiantaethau gorfodi'r gyfraith yw ymchwilio i derfysgaeth a'i throseddau cysylltiedig.

4.8. Daw pryderon amrywiol sy'n ymwneud â therfysgaeth at sylw'r comisiwn. Er enghraifft, gall y rhain gynnwys honiadau o gyllido terfysgwyr trwy elusennau i bryderon bod elusen neu ymddiriedolwr yn gysylltiedig â sefydliad a waharddwyd. Beth bynnag fo'r pryderon, cânt eu hasesu yn erbyn fframwaith risg y comisiwn. Mae pryderon o'r fath bob amser yn flaenoriaeth uchel ond bydd unrhyw gamau y mae'r comisiwn yn eu cymryd yn seiliedig ar yr amgylchiadau arbennig, difrifoldeb a graddfa'r broblem a chryfder a hygredded y dystiolaeth. Pan fydd y comisiwn yn cael gwybod am achosion o'r fath nid yw'n golygu y bydd yn ymyrryd yn awtomatig gan ddefnyddio ei bwerau ym musnes neu weinyddiaeth elusen.

4.9. Pan fydd pryder yn dod at sylw'r comisiwn drwy ei waith sy'n awgrymu bod elusennau, neu'r rhai sy'n gysylltiedig â nhw, wedi cyflawni trosedd, mae hwn yn fater i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a bydd yn cyfeirio amheuan o weithgareddau troseddol, gan gynnwys terfysgaeth, iddynt. Mae hyn yn unol ag ymagwedd gyffredinol y comisiwn at faterion o droseddoldeb o fewn elusennau, neu sy'n gysylltiedig ag elusennau. Ar y llaw arall, gall yr asiantaethau hynny gysylltu â'r comisiwn os oes pryderon neu amheuan ganddynt sy'n ymwneud ag elusen a/neu ei hymddiriedolwyr, felly mae perthynas effeithiol rhwng y comisiwn a'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn hollbwysig. Os oes amheuan bod cysylltiadau â gweithgarwch terfysgaeth neu achosion o gamddefnyddio posibl gan derfysgwyr o fewn yr elusen neu wedi'u cysylltu â'r elusen, gall y rhain godi materion difrifol o gamymddygiad neu gamreoli posibl yn nulliau gweinyddu elusennau sy'n ysgogi'r comisiwn i ymyrryd. Yn ogystal, rôl reoleiddio'r comisiwn yw sicrhau nad oes unrhyw risg bellach i'r elusen a'i chronfeydd ac mae'n bosib y bydd rhaid defnyddio ei bwerau i ddiogelu'r elusen hyd yn oes os yw digwyddiad yn cael ei ymchwilio gan yr heddlu.

5. Amcan strategol a'r ymagwedd 4 llinyn

5.1. Prif amcan strategaeth wrthderfysgaeth y comisiwn yw adnabod, tarfu ar ac atal terfysgaeth ac achosion difrifol eraill o gamddefnyddio'r sector elusennol. Bydd y comisiwn yn gwneud hyn ei hun a thrwy gydweithredu ag asiantaethau perthnasol eraill trwy'r canlynol:

- cymorth - annog a galluogi'r sector i feithrin ei ymwybyddiaeth a chryfhau ei fesurau diogelu ac amddiffyn
- goruchwyllo - trwy arolygu rheoleiddiol rhagweithiol, a lle y bo angen
- ymyrryd - gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol y comisiwn o amddiffyn ac unioni

5.2. Mae ymagwedd 4 llinyn i'r strategaeth at hyrwyddo'r amcan hwn a diogelu elusennau rhag y risg o gael eu camddefnyddio gan derfysgwyr. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng atal, rhwystro ac ymyrryd drwy ymchwilio. Nid yw'r risg o gamfanteisio gan derfysgwyr yr un mor gymwys ar draws y sector ac nid yw'r ymagwedd 'un maint yn addas i bawb' yn briodol nac yn gymesur. Mae strategaeth y comisiwn a'i ymagwedd yn adlewyrchu hyn. Y 4 llinyn yw:

1. Ymwybyddiaeth - codi ymwybyddiaeth yn y sector er mwyn adeiladu ar fesurau diogelu presennol elusennau.

2. Goruchwyllo ac arolygu - dull rhagweithiol o fonitro'r sector, dadansoddi tueddiadau a llunio proffil o'r risgiau a manau gwan.

3. Cydweithredu - cryfhau partneriaethau â rheoleiddwyr y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

4. Ymyrryd - delio'n effeithiol ac yn gadarn pan fydd camddefnyddio, neu'r risg o gamddefnyddio, yn dod i'r amlwg.

5.3. Mae terfyn ar yr hyn y gall y comisiwn ei ddweud yn gyhoeddus am ei waith ymchwilio a'i gydweithio â'r gymuned wrthderfysgaeth er mwyn peidio â chael effaith niweidiol ar ei waith ei hun neu waith asiantaethau eraill. Fodd bynnag, o dan bob llinyn o'r strategaeth, mae'r comisiwn yn disgrifio nwy am yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni a, lle'n bosibl, mae'n cyfeirio at y gwaith sydd wedi cael ei wneud neu a gaiff ei wneud.

5.4. Er mwyn gweithredu'r strategaeth bydd y comisiwn yn parhau i gryfhau ei berthynas weithio â rheoleiddwyr eraill ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU ac yn rhyngwladol gan gynnal ei annibyniaeth yr un pryd. Bydd yn parhau i gymryd camau i fonitro gweithgarwch yn y maes risg uchel hwn gan geisio ymyrryd yn gynnar lle'n bosibl, yn enwedig pan na fydd canllawiau rheoleiddio wedi'u bodloni ac nid yw gofynion wedi'u diwallu. Bydd y comisiwn yn parhau i roi'r pwyslais ar waith atal, gan godi ymwybyddiaeth ymddiriedolwyr o'r gofynion cyfreithiol er mwyn i gronfeydd, eiddo a buddiolwyr elusennau gael eu diogelu'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau y gall y cyhoedd barhau i gyfrannu at elusennau gan wybod â sicrwydd bod eu harian yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyfreithlon a'i fod yn cyrraedd y buddiolwyr a fwriedir.

6. Y 4 llinyn

Ymwybyddiaeth

6.1. Mae'r llinyn hwn yn ceisio atal camddefnydd trwy sicrhau bod ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r risgiau y mae elusennau'n eu hwynebu gan derfysgaeth, a'u bod yn cymryd camau eu hunain i ddiogelu eu helusen rhag y risg o gael eu camddefnyddio a'u bod yn gweithredu'n gyfrifol os yw pryderon yn codi.

6.2. Mae'r comisiwn yn credu y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar gadw i'r lleiaf posibl y risg i'r sector o fod yn agored i gamddefnydd gan derfysgwyr trwy annog a chefnogi datblygu dulliau llywodraethu cadarn, atebol a thryloyw o fewn elusennau, a pholisïau a gweithdrefnau rheolaeth ariannol a rheoli risg cyffredinol da. Mae hon yn neges graidd yn ei waith yn y maes hwn.

6.3. Mae prif lwyddiannau'r comisiwn yn y llinyn hwn yn cynnwys:

- cyhoeddi 'pecyn cymorth' ar-lein '[Diogelu elusennau rhag niwed](#)' sy'n rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau y mae eu hangen ar ymddiriedolwyr i reoli risgiau a diogelu eu helusen rhag niwed a rhag camddefnydd
- cyhoeddi pennod 1, '[Elusennau a therfysgaeth](#)' sy'n darparu gwybodaeth i elusennau ar agweddau allweddol ar ddeddfwriaeth wrthderfysgaeth y DU, gan ddangos sut y mae darpariaethau arbennig yn debygol o effeithio ar elusennau a'u gwaith; mae'n sicrhau bod ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol sydd arnynt o ran deddfwriaeth y DU a'r gyfraith elusennau er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau er lles eu helusen. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar y goblygiadau o weithio gyda sefydliadau sy'n ymddangos ar restrau dynodedig y DU, yr UE a'r Cenhedloedd Unedig a sefydliadau wedi'u dynodi gan lywodraethau eraill; wedi'i gynhyrchu mewn partneriaeth â'r sector a'r gymuned wrthderfysgaeth, mae'n adeiladu ar arferion da sefydledig yn y sector ac yn dysgu gan yr elusennau hynny sydd eisoes â phrofiad helaeth o reoli'r risgiau hyn yn eu gweithgareddau
- cynhyrchu'r canllaw newydd '[Elusennau: gwiriadau diwydrwydd dyladwy a monitro'r defnydd terfynol o gronfeydd](#)' sydd erbyn hyn yn ffurfio pennod 2 o'r pecyn cymorth. Mae'n ceisio gwneud ymddiriedolwyr elusen yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau wrth ymgymryd â gwiriadau diwydrwydd dyladwy a monitro mewn perthynas â'r gwaith a wna'r elusen gyda chyrrff allanol ac unigolion
- cyhoeddi pennod 3, '[Elusennau: twyll a throseddau ariannol](#)' i godi ymwybyddiaeth o'r risglau a helpu ymddiriedolwyr i'w rheoli, a phennod 4: '[Elusennau: dal, symud a derbyn arian yn ddiogel](#)' sy'n rhoi cyngor ymarferol ar reolaethau ariannol a rheoli risg
- cyhoeddi pennod 5, '[Diogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio at ddibenion eithafol](#)' sy'n esbonio dyletswyddau ymddiriedolwyr i atal eu helusen rhag cael eu defnyddio i hyrwyddo safbwyntiau eithafol neu ideoleg terfysgaeth ac sydd wedi'i anelu'n benodol at elusennau sy'n cynnal digwyddiadau rheolaidd gyda siaradwyr gwadd, a'r rhai sydd â dibenion addysgol sy'n dosbarthu deunyddiau a gwybodaeth
- mae'r pecyn cymorth wedi cael ei groesawu gan elusennau a phartneriaid y comisiwn yn y llywodraeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- diweddarar ei ganllawiau presennol gan gynnwys: '[Elusennau: sut i leihau'r risgiau wrth weithio'n rhyngwladol](#)'

- cyhoeddi rhybuddion cydymffurfio amrywiol ar gyfer y sector a'r cyhoedd, wedi'u llywio gan ei waith rheoleiddio a gwaith rheoleiddwyr eraill ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- rhedeg nifer o ymgyrchoedd a rhybuddion rhoi'n fwy diogel, gan gynnwys yn ystod yr apeliadau dyngarol ar gyfer llifogydd Pacistan yn 2010 a'r argyfwng yn Nwyrain Affrica yn 2011

6.4. Yn y dyfodol bydd y comisiwn yn:

- parhau i gynnal ymgyrchoedd rhoi'n fwy diogel a chanolbwyntio ar roi cyngor i elusennau, yn enwedig pan fyddant yn gweithio mewn sefyllfaoedd risg uwch lle y gwyddys fod grwpiau o derfysgwyr yn gweithredu
- parhau i gydweithio â'r sector ar faterion polisi a materion strategol allweddol, gan ganolbwyntio ar gydweithio drwy gyrff mantell a chynrychiolwyr allweddol o'r sector
- parhau i wahaniaethu yn ei ganllawiau rhwng yr hyn y mae'n 'rhaid' i elusennau ei wneud er mwyn bodloni gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol a'r hyn y 'dylent' ei wneud - sy'n golygu arferion da y mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr eu dilyn a'u cymhwyso i'w helusen er mwyn osgoi anawsterau a chydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol
- parhau i hyrwyddo ei ganllawiau a'i becyn cymorth a chael y sector elusennol i'w defnyddio
- parhau â'i ymrwymiad i weithio gyda'r sector i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau ymddiriedolwyr a lledaenu arferion da a dysgu
- trwy ei waith yn y Rhaglen Ryngwladol, sicrhau bod elusennau a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n gweithio mewn awdurdodaethau eraill yn ymwybodol o'r risgiau a'r dulliau atal y mae eu hangen i warchod yn erbyn camddefnyddio sefydliadau o'r fath at ddibenion terfysgaeth

Goruchwylio ac arolygu

6.5. Mae ymagwedd ragweithiol gan y comisiwn at ddadansoddi'r risgiau a manau gwan yn y sector o ran cael ei gamddefnyddio gan derfysgwyr. Mae'n monitro'r sector yn y meysydd a nodwyd fel rhai sydd â mwy o risg er mwyn canfod, yn gynnar yn y broses, yr elusennau hynny a allai wynebu problemau neu'n sy'n agored i fwy o risg oherwydd y ffordd y maent yn gweithredu, a ble y maent yn gweithredu, a chymryd camau priodol i ddatrys y problemau, a allai gynnwys rhoi cyngor rheoleiddio iddynt i leddfu neu osgoi problemau. Mae staff arbenigol yng nghyfarwyddiaeth Ymchwiliadau, Monitro a Gorfodi'r comisiwn yn parhau i ymgymryd â'r gwaith rhagweithiol hwn, gan gynnwys cynnal ymweliadau cydymffurfio rheoleiddiol ar y safle. Trwy ei waith rheoleiddio mae'r comisiwn yn arfer rôl oruchwylio gan gynnwys sicrhau bod elusennau'n ffeilio eu cyfrifon a'u ffurflenni. Os yw'n briodol, bydd yn archwilio llyfrau a chofnodion ariannol er mwyn sicrhau bod elusennau'n cydymffurfio â dyletswyddau ariannol allweddol ac yn adnabod unrhyw wendidau. Mae'r gweithgareddau hyn yn gweithredu fel rhwystr pwysig yn erbyn y rhai a allai geisio camddefnyddio elusennau at ddibenion anghyfreithlon.

6.6. Yn y dyfodol bydd y comisiwn yn parhau i wneud gwaith monitro, gan ddefnyddio ei wybodaeth a ffynonellau gwybodaeth eraill i wneud yn siŵr ei fod yn targedu ei adnoddau yn ofalus ac yn effeithiol, gan sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf posibl pan fydd yn cydweithio ag elusennau unigol.

Cydweithredu

6.7. Gall y comisiwn ymgymryd â'i waith yn y maes hwn dim ond trwy gael partneriaeth agos ac effeithiol â'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal â'r rheoleiddwyr ac adrannau eraill o'r llywodraeth sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o ddelio â'r bygythiad gan derfysgwyr, boed ar lefel yr heddlu neu ar lefel weithredol.

6.8. Mewn rhai achosion, bydd y comisiwn yn y sefyllfa orau i gymryd yr arweiniad wrth amharu ar gamddefnyddio elusennau trwy ei waith ymchwilio a thrwy ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio sifil. Mewn achosion eraill, gall helpu i sicrhau bod asiantaethau eraill yn deall y sector yn well pan fyddant yn ymchwilio i'r camddefnydd cysylltiedig. Mae'r comisiwn hefyd yn gallu defnyddio ei wybodaeth o'r sector elusennol i ddarparu gwybodaeth a dadansoddiad o'r risgiau sy'n effeithio ar y sector.

6.9. Mae'r comisiwn wedi meithrin perthynas strategol a gweithredol gryf â'r prif asiantaethau gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr eraill ac asiantaethau'r llywodraeth sy'n ymwneud â gwaith gwrthderfysgaeth. Mae wedi cytuno ar brotocolau ffurfiol ac mae memoranda dealltwriaeth yn eu lle i egluro a gosod y fframwaith y mae'r comisiwn yn cydweithio o'i fewn ac yn gweithio â phartneriaeth â nhw. O ganlyniad, mae'n gallu cydweithio'n effeithiol i weithredu ar bryderon penodol ac amharu ar y rhai sy'n ceisio gamfanteisio ar elusennau at ddbenion terfysgaeth.

6.10. Mae'r comisiwn wedi parhau i gryfhau ei berthynas â'r Uned Ymchwiliadau Ariannol Terfysgol Genedlaethol yn yr Heddlu Metropolitan a gydag Unedau Gwrthderfysgaeth yr Heddlu rhanbarthol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, yn ogystal â sicrhau ei fod wedi cyfrannu ei arbenigedd at bolisi a chynlluniau gwrthderfysgaeth y llywodraeth, gan gynnwys yr Adolygiad Atal. Mae wedi datblygu'r dull o gydweithio'n rheoleiddiol â rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill yn rhyngwladol i gynorthwyo gyda'i waith yn y maes hwn, sy'n bwysig iawn o ystyried dimensiwn rhyngwladol y bygythiad o gamddefnyddio gan derfysgwyr.

6.11. Yn y dyfodol, bydd ei waith a'i gydweithrediad â'r gymuned wrthderfysgaeth yn parhau i gynnwys:

- rhoi cymorth mewn achosion sydd wedi'u cynnwys o fewn cylch gwaith statudol y comisiwn, ond nid oes unrhyw ofyniad rheoleiddio uniongyrchol i'r comisiwn weithredu
- sicrhau bod yr holl amheuan o weithgareddau troseddol gan derfysgwyr o fewn elusennau, neu sy'n effeithio ar elusennau, yn cael eu hadrodd yn brydlon i'r Heddlu, naill ai gan y comisiwn neu gan yr elusen a effeithir
- rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth lle y bo'n berthnasol ac yn briodol ac os yw hynny o fewn cyfyngiadau'r gyfraith
- sicrhau bod perthnasoedd strategol a gweithredol priodol ag asiantaethau eraill yn cael eu cynnal a'u cryfhau
- rhannu arbenigedd a hyrwyddo sesiynau ymwybyddiaeth cyfatebol er mwyn helpu asiantaethau eraill i ddeall y sector yn well pan fyddant yn ymchwilio i'r camddefnydd sy'n gysylltiedig ag ef
- rhoi cyngor i asiantaethau eraill ar ei gyfrifoldebau a'i hymagwedd reoleiddio
- trwy ei Raglen Ryngwladol, cefnogi a rhoi cymorth technegol mewn awdurdodaethau dramor, i lywodraethau a rheoleiddwyr, er mwyn gwella a datblygu eu systemau rheoleiddio eu hunain i ddelio â therfysgwyr sy'n camddefnyddio elusennau a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n gweithredu yn eu hawdurdodaethau

Ymyrryd

6.12. Mae rôl rheoleiddio'r comisiwn yn canolbwyntio ar ymddiriedolwyr elusen. Os aiff rhywbeth o'i le, disgwylir i ymddiriedolwyr fod yn gyfrifol am unioni pethau. Bydd drwgweithredu bwriadol, troseddoldeb a chamddefnydd difrifol, gan gynnwys camddefnydd gan derfysgwyr, yn cael ei drin yn gadarn ac yn benderfynol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a thargedu'r hyn sy'n greiddiol i'r camddefnydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, pan fydd ymddiriedolwyr yn gweithredu'n rhesymol ac yn onest caiff hyn ei ystyried wrth benderfynu p'un ai i gymryd unrhyw gamau rheoleiddio yn eu herbyn neu beidio, ac wrth asesu sut i helpu ymddiriedolwyr i roi'r elusen yn ôl ar sylfaen lywodraethu gadarn. Lle'n bosibl, bydd y comisiwn yn sicrhau y gall gweithgarwch elusennol cyfreithlon a hanfodol barhau yn ystod ymchwiliad ac ar ôl hynny. Rhaid i gamau rheoleiddio sy'n atal llif cronfeydd gael ei gyfiawnhau gan dystiolaeth sy'n dangos bod hyn yn gam angenrheidiol a phriodol i'w gymryd. Felly mae swyddogaeth ymchwilio a gorfodi effeithiol yn y comisiwn yn hollbwysig.

6.13. Fel y byddai'r cyhoedd ac elusennau yn ei ddisgwyl, mae'r comisiwn yn trin honiadau neu amheuan o weithgarwch terfysgol sy'n gysylltiedig ag elusennau, neu sy'n cynnwys unigolion sy'n gysylltiedig ag elusennau, fel blaenoriaeth uchel. Mae pob achos yn cael ei archwilio'n unigol a bydd y camau y mae'r comisiwn yn eu cymryd yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae bob amser yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill ar yr ymchwiliadau hyn yn ogystal â'u helpu gyda'u hymchwiliadau pan fydd amheuan bod elusen neu ymddiriedolwyr elusen yn rhan o'r ymchwiliad. Weithiau ni fydd y comisiwn yn gallu cychwyn ymchwiliad neu weithredu mewn ffordd arbennig pe byddai hynny'n niweidio ymchwiliadau asiantaethau eraill.

6.14. Mae ymchwiliadau'r comisiwn ei hun yn cael eu llywio gan y gudd-wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ganddo, gan geisio:

- darfu ar unwaith ar weithgareddau'r rhai sy'n ceisio camddefnyddio elusen at ddibenion terfysgol
- sicrhau bod yr elusen, neu'r cronfeydd elusennol, yn cael eu defnyddio'n briodol er budd y buddiolwyr
- cadw i'r lleiaf posibl yr amhariad y gall unrhyw ddogfennau ei achosi i'r sector ehangach

6.15. Mae ystod o bwerau statudol gan y comisiwn y gall eu defnyddio i atal camddefnydd a diogelu asedau elusennol a buddiolwyr, gan gynnwys:

- pwerau casglu gwybodaeth sy'n galluogi'r comisiwn i gael gwybodaeth neu ddogfennau neu sy'n gofyn i unigolion a enwir i gwrdd â'r comisiwn i ateb cwestiynau
- pwerau diogelu dros dro sy'n galluogi'r comisiwn i ddiogelu eiddo elusen am gyfnod dros dro tra ei fod yn parhau i ymchwilio
- pwerau unioni sy'n ei alluogi i weithredu atebion hirdymor i broblemau sy'n codi'n aml mewn ymchwiliad

6.16. Gan fwrw golwg yn ôl, yn 2010-11 roedd 16 ymchwiliad yn cynnwys delio â honiadau ac amheuan o gysylltiadau â gweithgareddau neu sefydliadau cysylltiedig â therfysgaeth. Cwblhawyd 11 o'r ymchwiliadau hyn cysylltiedig â therfysgaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd 9 yn achosion cydymffurfio rheoleiddio ac roedd 2 yn ymchwiliadau statudol. Yn 2009-10, roedd 11 ymchwiliad yn cynnwys delio â honiadau ac amheuan o gysylltiadau â gweithgareddau neu sefydliadau cysylltiedig â therfysgaeth. Cwblhawyd wyth o'r ymchwiliadau hyn cysylltiedig â therfysgaeth yn ystod y flwyddyn: roedd 5 yn achosion cydymffurfio rheoleiddiol ac roedd 3 yn ymchwiliadau statudol.⁶

6 Mae gwybodaeth ystadegol ddiweddar ar gael yng nghyhoeddiad y comisiwn - [Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamdreoli](#) - sy'n adrodd ar waith y comisiwn i atal, canfod a rhoi sylw i gamddefnydd a chamdreoli mewn elusennau a hyrwyddo'r gyfraith elusennau.

6.17. Yn y dyfodol bydd y comisiwn yn parhau i ymchwilio i bryderon sy'n codi am broblemau cysylltiedig â therfysgaeth ac elusennau ac yn cynnal ymchwiliadau i'r achosion hyn. Bydd yn cynnal ei allu i ddelio â gwaith sy'n cynnwys camddefnyddio gan derfysgwyr gan sicrhau ei fod yn parhau i ddatblygu gwybodaeth ei arbenigwyr i ddelio â'r mathau hyn o achosion. Bydd y comisiwn yn parhau i gynnal diogelwch ei seilwaith gwybodaeth a chyfathrebu ei hun er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cysylltu'n briodol ag asiantaethau gorfodi a gweddill y llywodraeth yn y maes hwn.

6.18. Bydd y comisiwn yn parhau, fel rhan o'i waith adrodd cyhoeddus blynyddol i adrodd ar:

- sut y mae'n defnyddio pwerau diogelu ac unioni mewn achosion sy'n cynnwys cysylltiadau posibl â therfysgaeth
- effaith ei ymyrraeth, gan gynnwys diogelu eiddo ac asedau elusen, a'r gwelliant arwyddocâd ac angenrheidiol mewn dulliau llywodraethu elusennau
- swm y cronfeydd elusen a gafodd eu diogelu neu eu hailgyfeirio yn sgil gweithredu gan y comisiwn
- y gwersi mwy cyffredinol a ddysgwyd drwy ei ymchwiliadau a'i waith achos rheoleiddio yn y maes hwn

Nid yw'r comisiwn yn mesur llwyddiant yn nhermau cynnydd yn nifer yr ymchwiliadau, oherwydd gall hyn fod yn gamarweiniol.

Strategaeth wrthderfysgaeth: yr ymagwedd 4 llinyn

